

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,  
Nos Lun, 25 Tachwedd 2019  
am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

**Presennol:** B Hughes **BH**, K Hughes **KH**, J Ferry **JF**, L Jones **LJ**, JA Roberts **cadeirydd**, EAB Thomas **EABT**, RW Owen **clerc**.

**Ymddiheuriadau:** AI, CJ, EJ, VO, OGR.

## 2. Datgan Diddordeb: KH eitem 6.

## 3. Trafodaeth gyda Mr Dylan Owen, Hwylusydd Tai Gwledig, Grwp Cynefin.

Cafwyd sgwrs gyda Mr Dylan Owen, a eglurodd ei fod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i ddarganfod beth yw'r angen am dai newydd lleol. Mae sawl datblygiad ar y gweill, ond cyn symud ymlaen gyda unrhyw gynlluniau cadarn bydd sesiwn agored yn cael ei gynnal yn y pentref er mwyn rhoi cyfle i bobol lleol fynegi ei barn. Mr Dylan Owen i hysbysu'r clerc unwaith bydd y dyddiad, amser ac lleoliad wedi ei benderfynnu. Nododd y cyngor eu cefnogaeth o'r bwriad i godi tai fforddiadwy ar gyfer pobol lleol, ond byddai angen cadw mewn golwg effeithiau ar gyflysterau lleol e.e system garffosiaeth, ayyb. Diolchodd y cadeirydd i Mr Owen am fynychu.

## 4. Arwyddo cofnodion Hydref 2019.


Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **EABT** yn cynnig, **LJ** yn eilio.

## 5. Materion sy'n codi.

5.1 Nodwyd fod cyflwr y lon yn Bron y Graig wedi gwella yn arw, ond bydd angen i'r cyngor barhau gyda pwysau ar CSYM i wella gweddill o'r tyllau ar lon Llundain heibio'r Ysgol Uwchradd.

5.2 Nodwyd fod y broblem parcio yn parhau, gyda mwy o bwysau yn y pentref gan fod Meddygfa'r Fali wedi cau a bod mwy o gleifion yn dod i Fodedern. Y clerc i bwysleisio i CSYM unwaith eto pam mor ddefnyddiol fyddai'r tir gwag yn Stryd Batus.

5.3 Y clerc wedi bod yn anllwyddiannus yn derbyn pris arall am drin y lloches bws. Cytunwyd i dderbyn y pris o flaen y cyngor.



# Cyngor Cymuned Bodedern



6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio. Dim ceisiadau.

## 7. Gohebiaeth i'w adolygu

7.1 Y clercc wedi derbyn cwyn gan feddygfa Bodedern fod eu draeni wedi blocio ac roedd y feddygfa yn credu dylai'r cyngor helpu gyda'r gost gan fod sawl draen yn y pentref wedi blocio. Y clercc wedi cysylltu a Dwr Cymru i'w hysbysu o'r broblem ac adran dai CSYM gan fod nifer o dai cyngor gyferbyn, ac wedi egluro i'r feddygfa mae mater thu allan i rym yn cyngor yw hyn.

7.2 Derbyniwyd llythyr anhysbys wedi'i gyfeirio at y cyngor ynghylch a materion cynllunio lleol, gyda chais gan yr awdur i'r cyngor weithredu yn unol a'u orchmynion. Ochr yn ochr a'r tri cynghorwyr lleol a oedd hefyd wedi derbyn copi o'r llythyr, cytunwyd na byddai modd ymateb na gweithredu ar llythyr anhysbys, ac ni fydd y cyngor yn cymryd unrhyw gamau pellach yn ymwneud a'r llythyr.

7.3 Derbyniwyd llythyr gan "Woodland Trust free packs of Trees" i weld os fyddai unrhyw un a diddordeb mewn derbyn pcedi o goed am ddim. Y clercc i ysgrifennu yn ol gyda cais am goed a allai gael ei rhannu rhwng yr ysgolion, neuadd, maes chwarae a unrhyw uniglion a diddordeb.

## 8. Taliadau i'w gwneud- Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)

Mon Grass Cutting    MGC3204                      £140.00                      Rhif sic: 200088

## 9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

9.1 Mynegodd y cyngor eu Llongyfarchiadau i Dr Edward Jones ar ei lwyddiant yn derbyn Ysgoloriaeth Nuffield.

9.2 Cadarnhawyd bydd arian David Williams yn cael ei rannu 11/12/19, 1.30-3.30 p.m.

Dymunodd y cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r cyngor.

## 10. Dyddiad cyfarfod nesaf.

27 Ionawr 2020.



Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Symudol / mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com